



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

I'r Cynigion ar gyfer Pysgodfa Cramenogion y Glannau

Rhan 1



Dyddiad cyhoeddi: Awst 2014

ISBN digidol 978 1 47341 1833 2

© Hawlfraint y Goron 2014

WG22596

Cynnwys

Trosolwg	1 - 2
Crynodeb o'r Materion Allweddol	3 - 4
Cwestiynau a Chrynodeb o'r Ymatebion	5 - 18
Atodiad 1	19

Trosolwg

Gweledigaeth Cynllun Gweithredu Strategol y Môr a Physgodfeydd Cymru ¹, a gyhoeddwyd ar 26 Tachwedd 2013, yw môr glân, iach, diogel, cynhyrchiol ac amrywiol yn fiolegol. Mae'r Cynllun Gweithredu Strategol am ein gweld yn rheoli ein moroedd drwy ddull sy'n seiliedig ar ecosystemau er mwyn diogelu a gwarchod ein hadnoddau naturiol a defnyddio poblogaethau iach fel sail ar gyfer hybu twf economaidd cynaliadwy.

Yr her i reolwyr pysgodfeydd yw cadw'r ddysgl yn wastad rhwng yr angen i osgoi gweithgaredd sy'n niweidio'r amgylchedd a chynyddu gwerth gweithgareddau y gallwn eu cynnal yn gynaliadwy. Mae gan bysgod cregyn botensial economaidd cynaliadwy sylweddol ac mae cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i reoli'r asedau hyn mewn ffordd gynaliadwy i sicrhau twf economaidd priodol a diogelu bywoliaethau pobl o gwmpas ein harfordir. Y bysgodfa cramenogion (sy'n cynnwys Cimychiaid, Crancod Coch, Cimychiaid Coch, Crancod Llygatgoch, Crancod Heglog a Chrancod Glas) yw un o bysgodfeydd masnachol mwyaf Cymru.

Carai Llywodraeth Cymru weld pysgodfa cramenogion cynaliadwy a hyfyw yng nglannau Cymru, gyda deddfwriaeth syml ac effeithiol yn gefn iddi. Mae'r rheolau presennol yn gymhleth ac yn ddryslyd. Mae sawl lefel o is-ddeddfwriaeth wedi'u datblygu dros amser gan y cyrff gwahanol sydd wedi bod yn gyfrifol am bysgodfeydd, yn aml ar sail ardal. Mae'n anorfod felly bod peth gorgyffwrdd, dyblygu a chroesddweud rhwng y gwahanol setiau o ddeddfwriaeth. Mae hyn yn ddryslyd i ddefnyddwyr a rheolwyr. Ni all y sefyllfa hon bara.

Mae'r ddogfen ymgynghori'n gosod allan y cynigion ar gyfer Rhan 1 yr adolygiad o'r holl ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i gramenogion yn holl ddyfroedd Cymru. Y nod yw llunio fframwaith clir a hawdd ei ddeall ar gyfer rheoli pysgodfa cramenogion Cymru gyfan. Mae'r gwaith hwn yn rhan o adolygiad ehangach o'r holl ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â physgodfeydd yng Nghymru (a pharth Cymru).

Rydym yn credu bod angen rheolau newydd arnom sy'n deg, yn seiliedig ar dystiolaeth, sy'n hawdd eu deall ac yn hygyrch. Bydd yna fwy o safoni a llai o ffiniau. Dylent fod yn hawdd eu gorfodi, yn adlewyrchu'r arferion pysgota diweddaraf a, lle medrir, dylent leihau'r baich ar y diwydiant a'r Llywodraeth fel ei gilydd. Bydd y newidiadau'n ein galluogi i ddefnyddio a thargedu ein hadnoddau naturiol yn well.

¹ <http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/fisheries/walesfisheriesstrategy/?lang=cy>

Cyflwyniad

Ym mis Ebrill 2010, trosglwyddwyd yr holl gyfrifoldebau am reoli'r pysgodfeydd ym Mharth Cymru, y cyfeirir ato fel Môr Tiriogaethol Cymru ac sy'n cynnwys pysgodfeydd y glannau hyd at 12 milltir forol o'r lan, i Weinidogion Cymru.

Cytunodd y cyn Weinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd i lansio ymgynghoriad 12 wythnos ar Gynigion ar gyfer Pysgodfa Cramenogion y Glannau (Rhan 1).

Y Cyfnod Ymgynghori a Dosbarthiad

Cychwynnodd yr ymgynghoriad ar 27 Ionawr 2014, a dod i ben ar 20 Ebrill 2014.

Nod yr ymgynghoriad oedd cael barn ar y cynigion ar gyfer Rhan 1 yr adolygiad o'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n berthnasol i Bysgodfa Cramenogion y Glannau.

Anfonwyd llythyr a oedd yn rhoi gwybod i randdeiliaid am yr ymgynghoriad at oddeutu 1500 o randdeiliaid, naill ai drwy'r post neu e-bost, ac roedd hefyd yn rhoi manylion cyfeiriadau gwe lle gellid gweld y dogfennau. Er bod yr ymgynghoriad ar gael ar-lein, roedd rhanddeiliaid hefyd yn gallu cysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru i ofyn am gopi caled o'r ddogfen.

Cafodd Ffurflen Ymateb ei dosbarthu gyda'r ymgynghoriad, a oedd yn cynnwys 11 cwestiwn penodol ac roedd hefyd yn rhoi'r cyfle i ymatebwyr gynnwys sylwadau ar Ran 1 a Rhan 2 o'r Adolygiad o'r Ddeddfwriaeth. Cafwyd cyfanswm o 44 ymateb i'r ymgynghoriad. Mae rhestr o'r ymatebwyr yn Atodiad 1. Gofynnwyd dau gwestiwn atodol arall i'r 44 ymatebydd ar 25 Mehefin a'r ymatebion i'w derbyn erbyn 4 Gorffennaf fan bellaf. Hysbyswyd yr ymatebwyr hyn y byddem yn ei chymryd yn ganiataol, pe na fyddem yn cael ymateb erbyn y dyddiad olaf, mai 'Dim Sylwadau' oedd eu hymateb at ddibenion yr ymgynghoriad hwn. Mae hyn yn esbonio'r nifer mwy o 'Dim sylwadau' o'i gymharu â'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn gyffredinol.

Ymatebion

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Bydd yr holl ymatebion ynghyd â'r trafodaethau a gynhaliwyd gyda grwpiau bychan o randdeiliaid a Grwpiau Pysgodfeydd y Glannau yn cael eu hystyried ac yn cyfrannu at y penderfyniad a wneir ynghylch y cynigion hyn.

Rydym wedi cael ymatebion gan amrywiaeth eang o randdeiliaid a oedd ag amrywiaeth eang o fuddiannau. Defnyddiodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yr holiadur a ddarparwyd; ond defnyddiodd nifer bychan fformat testun agored.

Crynodeb o'r materion allweddol

Mae ymatebwyr yn cefnogi'r rhan fwyaf o'r cynigion ac yn teimlo y dylid cael deddfwriaeth glir a chyson ledled Cymru. Cafwyd mwyafrif yr ymatebion i'r cynigion gan y sector masnachol (20) a'r sector hamdden (17). Cafwyd 7 ymateb arall, gan gynnwys sylwadau oddi wrth sectorau fel Cymdeithasau Pysgotwyr (1) Masnachwyr (1), Grwpiau Amgylcheddol (2) a chynrychiolwyr eraill heb eu pennu (3).

Mae dadansoddiad o'r Ymatebwyr fesul sector i'w weld yng Nghwestiwn 1 ynghyd â dadansoddiad pellach yn ôl ardal.

Er bod Ymatebwyr wedi cael eu gwahodd i roi ateb 'Ydw neu 'Nac ydw' i bob cwestiwn, roedd croeso iddynt hefyd ddarparu sylwadau ychwanegol ar gyfer cwestiwn penodol os oeddynt yn teimlo bod hynny'n berthnasol. Mae'r holl sylwadau a ddyfynnir isod yn dod o ymatebion ar wahân i'r ymgynghoriad.

I adlewyrchu'n gywir y rheini sy'n gefnogol, mae'r ffigur % yn seiliedig ar nifer yr ymatebwyr a ddarparodd ymateb 'Ydw neu 'Nac ydw'. Nid yw'r rheini na wnaethant sylw wedi'u cynnwys yn y cyfrifiad.

C.2 Ydych chi'n cytuno â phennu maint lleiaf ledled Cymru ar gyfer Cimychiaid (*Homarus gammarus*) o 90mm?

	O blaid	Yn erbyn	Dim sylw	cyfanswm	% y gefnogaeth
C2	34	7	3	44	83%

C.3 Ydych chi'n cytuno â phennu maint lleiaf ledled Cymru ar gyfer crancod Coch (*Cancer pagurus*) (y ddau ryw) o 140mm ?

	O blaid	Yn erbyn	dim sylw	cyfanswm	% y gefnogaeth
C3	36	6	2	44	86%

C.4 Ydych chi'n cytuno â phennu maint lleiaf ledled Cymru ar gyfer crancod heglog (*Maia squinado*) (y ddau ryw) o 130mm ?

	O blaid	Yn erbyn	dim sylw	cyfanswm	% y gefnogaeth
C4	40	2	2	44	95%

C.5 Ydych chi'n cytuno â phennu maint lleiaf ledled Cymru ar gyfer cimychiaid coch (*Pallinurus elehas*) o 110mm?

	O blaid	Yn erbyn	dim sylw	cyfanswm	% y gefnogaeth
C5	39	3	2	44	93%

Q.6 Ydych chi'n cytuno â diwygio'r ddeddfwriaeth a nodir yn y ddogfen hon sy'n ymwneud â chrancod llygatgoch (*Liocarcinus puber*)?

	O blaid	Yn erbyn	dim sylw	cyfanswm	% y gefnogaeth
C6	37	4	3	44	90%

C.7 Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ymestyn y rheolau ar y meintiau lleiaf uchod i ddeuddeg milltir forol yn unol â ffiniau Môr Tiriogaethol Cymru?

	O blaid	Yn erbyn	dim sylw	cyfanswm	% y gefnogaeth
C7	38	3	3	44	93%

C.8 Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i greu trosedd cludo, sy'n ei gwneud yn drosedd bob ag unrhyw un o'r rhywogaethau uchod yn eich meddiant sy'n llai na'r maint lleiaf a nodir uchod, hyd yn oed pa bai wedi'i ddal y tu allan i Fôr Tiriogaethol Cymru (12 milltir forol)?

	O blaid	Yn erbyn	dim sylw	cyfanswm	% y gefnogaeth
C8	36	5	3	44	88%

C.9 Ydych chi'n cytuno â'r gwaharddiad ar bysgota am gimychesau wyog a gwahardd eu glanio a'u gwerthu; a gwahardd hefyd eu cynnig neu eu dangos i'w gwerthu a bod â chimyches o'r fath yn eich meddiant? Byddai'n rhaid i chi felly daflu cimyches wyog yn ôl yn syth i'r môr.

	O blaid	Yn erbyn	dim sylw	cyfanswm	% y gefnogaeth
C9	23	19	2	44	55%

Dyma'r cwestiynau atodol a ofynnwyd:

CA.1. Ydych chi'n cytuno â gwahardd pysgota am gimychiaid ac arnynt hollt V neu sydd wedi'u llurgunio a gwahardd hefyd eu glanio a'u gwerthu; a gwahardd hefyd eu cynnig neu eu dangos i'w gwerthu a bod â chimwch o'r fath yn eich meddiant? Byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid taflu cimychiaid â hollt V neu wedi'u llurgunio yn ôl yn syth i'r môr.

	O blaid	Yn erbyn	dim sylw	cyfanswm	% y gefnogaeth
CA1	11	2	31	44	85%

CA.2. Ydych chi'n cytuno â'r gwaharddiad ar gadw rhannau Crancod Coch, Crancod Heglog, Crancod Llygatgoch a Chrancod Glas i bob rhan o arfordir Cymru, hyd at 12 milltir forol o'r lan?

	O blaid	Yn erbyn	dim sylw	cyfanswm	% y gefnogaeth
CA.2	11	2	31	44	85%

Cwestiynau

C.1 Beth yw'ch rhan chi yn y bysgodfa cramenogion? Ticiwch un o'r blychau isod sy'n disgrifio orau'ch rhan chi ym mhysgodfa Cramenogion Cymru.

Daeth y mwyafrif o'r ymatebion oddi wrth bysgotwyr masnachol, ac o ardal Gogledd Cymru.

Tabl 1: Yr ymatebion a gafwyd yn ôl sector:

Categori	Nifer yr ymatebwyr	% cyfanswm nifer yr ymatebwyr
Pysgotwr masnachol	20	45
Pysgotwr hamdden	17	39
Cynrychiolydd grŵp pysgotwyr	1	2
Masnachwyr	1	2
Buddiannau Amgylcheddol	2	5
Arall	1	2
Heb nodi	2	5
Cyfanswm	44	100

Tabl 2: Dadansoddiad o'r ymatebion yn ôl ardal:

Sector a gynrychiolir	Cyfanswm ymatebion	Gogledd	De
Pysgotwr masnachol	20	16	4
Pysgotwr hamdden	17	17	-
Cynrychiolydd grŵp pysgotwyr	1	1	-
Masnachwyr	1	1	-
Buddiannau Amgylcheddol	2	2	
Arall	1	1	-
Heb nodi	2	2	-

C.2 Ydych chi'n cytuno â phennu maint lleiaf ledled Cymru ar gyfer Cimychiaid (*Homarus gammarus*) o 90mm?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i gynyddu maint lleiaf cimychiaid ac yn teimlo y byddai hyn o fudd i ddiwydiant pysgota Cymru (34). Ond, er eu bod yn cytuno â'r cynnig, roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo y dylid cyflwyno'r newid hwn yn raddol dros gyfnod o 2/3 blynedd er mwyn lleihau'r effaith ar bysgotwyr, yng Ngogledd Cymru yn arbennig. Roedd saith yn anghytuno'n llwyr â'r cynigion ac ni chafwyd ymateb gan dri.

Dyma rai sylwadau a dderbyniwyd oddi wrth y rheini sydd o blaid y cynigion:

- O ran marchnata a chynaliadwyedd, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn cynyddu maint. Drwy gynyddu maint y cimychesau sy'n cael eu glanio, bydd pob un ohonynt yn cael blwyddyn neu ddwy yn ychwanegol o ryddhau wyau.
- Rwy'n credu bod 87mm yn rhy fach beth bynnag a dydw i ddim yn cadw cimychiaid o dan 90.
- Rwy'n cytuno'n llwyr y dylai'r maint godi i 90mm. Ond yr hyn sy'n fy mhoeni yw nifer y pysgod llai ar hyn o bryd ar y llawr. Rwy'n credu bod hyn yn achosi marwolaethau mewn cewyll sy'n cael eu gadael i drochi am hir. Os bydd y 90 yn cael ei gyflwyno, dyma'r amser delfrydol, mi gredaf, i gyflwyno hatshus dianc gorfodol.
- Rwy'n cefnogi'r cynnig i gyflwyno maint lleiaf o 90mm ar gyfer hyd cregyn ar gyfer holl ddyfroedd Cymru hyd at y 12 filltir morol.
- Bydd codi'r maint lleiaf i 90mm yn rhoi mwy o allu i oroesi i'r stoc cimychiaid. Bydd hefyd yn darparu cimychiaid gwell o ran gwerth i'r marchnadoedd.
- Rwy'n credu mewn gosod terfyn maint ar draws y bwrdd i osgoi dryswch, ond dim ond os bydd modd ei blismona.
- Gan fod cimychiaid yn ganibalaid, bydd y rhai mawr yn gwneud mwy o ddrwg nag o les ac nid ydynt yn atgenhedlu gystal â'r rhai iau. Rwy'n cytuno â chodi'r maint. Bydd yn golygu gostyngiad mawr yn y ddalfa yn y tymor byr.
- Rwy'n cytuno â chodi'r maint i 90mm ond efallai y gellid cynyddu'r maint fesul 1mm y flwyddyn dros y tair blynedd nesaf fel nad yw'r effaith mor fawr mewn un tymor.
- Maint lleiaf cimychiaid a chrancod coch - dwi di ticio o blaid y maint lleiaf o 90mm ar gyfer cimychiaid a 140mm ar gyfer crancod coch.
- Rwy'n cytuno â chodi'r maint lleiaf ond bydd yn effeithio'n sylweddol ar Ogledd Cymru a Bae Ceredigion yn y tymor byr (hen ardal Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru)

- Dylai'r cynigion gwmpasu'r tir a'r môr. Felly, os bydd unrhyw brynwr yn prynu pysgod cregyn o faint rhy fach neu os bydd unrhyw bysgotwr yn cael ei ddal gyda physgod cregyn o faint rhy fach ar y tir neu ar y môr, dylai gael ei erlyn ac mae angen i'r dirwyon fod yn ddigon mawr i'w atal rhag troseddu eto.
- Rwyf wedi bod yn bysgotwr cimychiaid a chrancod masnachol amser llawn ers 31 o flynyddoedd. Mae'n hen bryd cynyddu'r maint lleiaf ac mae'r cynigion i'w croesawu'n fawr.
- Yn fy ardal i, mae 'na broblemau gyda glanio cimychiaid o dan 87mm a chrancod coch o dan 130mm; bydd yn rhaid i'r meintiau 90mm a 140mm gael eu gorfodi neu bydd pob pysgotwr onest allan o fusnes.

Dyma rai sylwadau a dderbyniwyd gan bobl yn erbyn y cynigion:

- Byddai codi maint cimychiaid i 90mm yn cael effaith andwyol ar y bysgodfa leol yma yn Nhrefor. Byddai'n golygu mynd allan o fusnes o fewn blwyddyn, gyda'r dalfeydd yn cael eu haneru o leiaf.
- Byddai cyfyngu ar uchafswm maint cimychiaid yn difetha'r hwyl o'u dal, byddai'n cynyddu'r ymladd a byddai crafangau'n cael eu colli neu waeth. Mewn un ardal lle rwy'n pysgota, dim ond cimychiaid bach y byddaf yn eu dal [87mm i 90mm] ac wrth ddeifio yn yr ardal hon, dim ond y maint hwn o gimwch y bydd rhan helaeth o'r tir dal yn ei gynnal. Felly bydd codi'r maint yn effeithio'n eithaf sylweddol ar fy nalfa.
- Y Maint Glanio Lleiaf (MLS) yw'r unig fesur ym mhysgodfa Gogledd Cymru sy'n diogelu'r adnodd ar hyn o bryd, heblaw am yr hollt v. Mae'n amlwg yn gweithio'n dda iawn a hebdo ni fyddai'r bysgodfa'n bodoli fel y mae heddiw. Ond drwy gynyddu'r mesur yn sylweddol o 87mm i 90mm, mae dwy broblem yn codi. Yn gyntaf, byddai gostyngiad sylweddol yn y cimychiaid 'dethol' yn y ddalfa. Mae problem arall hefyd yn gysylltiedig â chynyddu'r maint glanio lleiaf. I rai pysgotwyr, bydd y cynnydd hwn mewn pysgod cregyn dethol a deflir yn ôl i'r môr yn arwain at gadw cimychiaid rhy fach.
- Roedd y 3mm o gynnydd o 87mm i 90mm yn ormod yn rhy fuan gan y byddai'n achosi gormod o galedi i'r cychod llai yn y diwydiant a chytunwyd y dylid cynyddu'r maint 1mm y flwyddyn nes cyrraedd 90mm gan y tybiwyd y byddai'r maint yn codi'n anochel i 90mm i uno'r gogledd a'r de.
- Dydw i ddim yn teimlo'n ddigon cymwys i ateb y cwestiynau, felly dwi'n gwneud sylw cyffredinol. A minnau'n bysgotwr hamdden fel sawl un arall sy'n dod ar wyliau i Gymru bob haf ac yn dal 3 neu 4 cimwch efallai bob blwyddyn yn ystod mis Awst - peidiwch da chi â gwneud unrhyw system newydd neu system gofnodi yn rhy feichus i ni amaturiaid. Heb y cyfle i fwynhau mewn cwch gyda 2 neu 3 cawell cimwch am dair wythnos y flwyddyn, efallai na fydda i a'm teulu, fel eraill, yn dod ar wyliau i Gymru bob haf.
- Mae cynnydd graddol wedi bod yn nifer yr holl gramenogion yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Does dim angen cynyddu'r maint lleiaf os yw'r ardal warchodaeth i'w hymestyn oherwydd bydd hyn yn helpu'r stoc i gynyddu yn fwy byth oherwydd rhagor o amddiffyniad.

C.3 Ydych chi'n cytuno â phennu maint lleiaf ledled Cymru ar gyfer crancod coch (*Cancer pagurus*) (y ddau ryw) o 140mm ?

Roedd cefnogaeth i'r cynnig hwn (36), roedd chwech yn gwrthwynebu ac ni chafwyd ymateb gan ddau. Ond, roedd sylwadau Grwpiau Pysgodfeydd y Glannau fel petaent o blaid cynnal Asesiad o'r Effaith Economaidd cyn rhoi'r newidiadau ar waith.

Dyma rai sylwadau a dderbyniwyd oddi wrth y rheini sydd o blaid y cynnigion:

- Maint lleiaf cimychiaid a chrancod coch - dwi di ticio o blaid y maint lleiaf o 90mm ar gyfer cimychiaid a 140mm ar gyfer crancod coch. Yn fy ardal i, mae 'na broblemau gyda glanio cimychiaid o dan 87mm a chrancod coch o dan 130mm; bydd yn rhaid i'r meintiau 90mm a 140mm gael eu gorfodi neu bydd pob pysgotwr onest allan o fusnes.
- O ran marchnata a chynaliadwyedd, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn cynyddu maint.

Rwy'n cefnogi'r cynnig i gyflwyno maint lleiaf o 140mm ar gyfer crancod coch ar gyfer holl ddyfroedd Cymru hyd at 12 milltir forol.

- Cytunwyd, os bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r mesurau newydd hyn, y dylent hwy ddarparu'r mesurau â'r meintiau priodol arnynt. Hefyd, roedd teimlad cryf bod angen gwell presenoldeb gan yr adran Pysgodfeydd i gadw golwg ar y diwydiant ac atal unrhyw un rhag torri'r gyfraith gan nad yw'r lefel bresennol o oruchwylio yn ddim ataliad o gwbl. Awgrymwyd y dylai trwyddedau, pan mae'r cyfreithiau'n cael eu torri'n ddigywilydd, gael eu diddymu gan y byddai hyn yn ataliad llawer cryfach.

Dyma rai sylwadau a dderbyniwyd gan bobl yn erbyn y cynnigion:

- Dydw i ddim yn cytuno â'r cynnydd yn y maint lleiaf ar gyfer y Cranc Coch. Mae hyn eto'n bennaf oherwydd y farchnad a'r ffaith bod y boblogaeth yng ngogledd Cymru yn ymddangos yn iach. Mae'r masnachwyr lleol yn trin y cranc ar gyfer y bwytai, gwestai ac ymwelwyr yn ystod yr haf. Yn ein hardal ni, mae'n ffaith mai'r crancod lleiaf sy'n rhoi'r pwysau gorau o gig. Mae llawer o'r crancod gorau ar gyfer eu trin yn y maint 130mm-140mm. Byddwn yn colli rhan sylweddol iawn o'm dalfa y gallaf ei gwerthu na fyddai modd ei hategu â chrancod mwy oherwydd bod eu cig weithiau'n ddyfrllyd. Byddai cynnydd ym maint glanio lleiaf yn effeithio'n sylweddol ar fy enillon ac i mi, mae'r boblogaeth Crancod Coch yn iach iawn. Felly, pam rhoi rhagor o warchodaeth iddo?
- Pam yr ydych yn sydyn eisiau newid y ddeddfwriaeth pam mae cynnydd yn y cramenogion yn ein moroedd.

C.4 Ydych chi'n cytuno â phennu maint lleiaf ledled Cymru ar gyfer crancod heglog (*Maia squinado*) (y ddau ryw) o 130mm ?

Cafwyd cefnogaeth fawr i'r cynnig hwn, gyda 40 ymateb yn cytuno â'r newid. Dim ond dau ymatebydd oedd yn gwrthwynebu ac ni chafwyd ymateb gan ddau.

Dyma rai sylwadau a dderbyniwyd oddi wrth y rheini sydd o blaid y cynigion:

- Cytunwyd, os bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r mesurau newydd hyn, y dylent hwy ddarparu'r mesurau â'r meintiau priodol arnynt. Hefyd, roedd teimlad cryf bod angen gwell presenoldeb gan yr adran Pysgodfeydd i gadw golwg ar y diwydiant ac atal unrhyw un rhag torri'r gyfraith gan nad yw'r lefel bresennol o oruchwylio yn ddim ataliad o gwbl. Awgrymwyd y dylai trwyddedau, pan mae'r cyfreithiau'n cael eu torri'n ddigywilydd, gael eu diddymu gan y byddai hyn yn ataliad llawer cryfach.
- Rwy'n cefnogi'r cynigion i bennu maint lleiaf ar gyfer Crancod Heglog, ond rhaid i hyn hefyd gynnwys prynwyr yng Nghymru.
- O ran marchnata a chynaliadwyedd, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn cynyddu maint. Yn anaml iawn y mae cwsmeriaid eisiau prynu meintiau llai ac yn aml rwy'n gorfod eu gorfodi i wneud am bris is. Trwy gynyddu'r maint, bydd gennym gynnyrch o safon llawer gwell, sy'n fwy cynaliadwy ac yn haws ei werthu am bris premiwm – mae hyn yn berthnasol i grancod a chimychiaid.

Ni chafwyd sylwadau gan yr ymatebwyr nad oeddynt yn cefnogi'r cynigion.

C.5 Ydych chi'n cytuno â phennu maint lleiaf ledled Cymru ar gyfer cimychiaid coch (*Pallinurus elehas*) o 110mm?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cefnogi'r cynnig (39), gyda rhai ymatebwyr yn darparu rhagor o gynigion. Cafwyd tri gwrthwynebiad a dau na ddarparodd ymateb.

Dyma rai sylwadau a dderbyniwyd oddi wrth y rheini sydd o blaid y cynigion:

- Cytunwyd, os bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r mesurau newydd hyn, y dylent hwy ddarparu'r mesurau â'r meintiau priodol arnynt. Hefyd, roedd teimlad cryf bod angen gwell presenoldeb gan yr adran Pysgodfeydd i gadw golwg ar y diwydiant ac atal unrhyw un rhag torri'r gyfraith gan nad yw'r lefel bresennol o oruchwylio yn ddim ataliad o gwbl. Awgrymwyd y dylai trwyddedau, pan mae'r cyfreithiau'n cael eu torri'n ddigywilydd, gael eu diddymu gan y byddai hyn yn ataliad llawer cryfach.
- A allwn ni gynnwys gwaharddiad ar lanio cimychiaid coch wyog?
- Rwy'n cefnogi'r cynigion ar gyfer Cimychiaid Coch/Cimychiaid Heglog, ond rhaid i hyn hefyd gynnwys prynwyr yng Nghymru.
- Dylai'r cynigion gwmpasu'r tir a'r môr. Felly, os bydd unrhyw brynwr yn prynu pysgod cregyn o faint rhy fach neu os bydd unrhyw bysgotwr yn cael ei ddal gyda physgod cregyn o faint rhy fach ar y tir neu ar y môr, dylai gael ei erlyn ac mae angen i'r dirwyon fod yn ddigon mawr i'w atal rhag troseddu eto.

Dyma rai sylwadau a dderbyniwyd gan bobl yn erbyn y cynnigion:

- Pam newid?
- Pam yr ydych yn sydyn eisiau newid y ddeddfwriaeth pam mae cynnydd yn y cramenogion yn ein moroedd.

C.6 Ydych chi'n cytuno â diwygio'r ddeddfwriaeth a nodir yn y ddogfen hon sy'n ymwneud â chrancod llygatgoch?

Roedd yr ymatebwyr o blaid y cynnig hwn, gyda 38 yn cefnogi'r cynnig, tri yn gwrthwynebu a thri heb roi ymateb.

Dyma un sylw a dderbyniwyd o blaid y cynnig:

- Rwy'n cefnogi'r cynnigion ar gyfer y cranc llygatgoch, ond rhaid i hyn hefyd gynnwys prynwyr yng Nghymru.

C.7 Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ymestyn y rheolau ar y meintiau lleiaf uchod i ddeuddeg milltir forol yn unol â ffiniau Môr Tiriogaethol Cymru?

Unwaith eto roedd cefnogaeth i'r cynnig hwn, gyda 36 ymatebydd o blaid y cynnig, pump yn erbyn a thri heb ddarparu ymateb. Er bod cefnogaeth i'r cynnig hwn, ni chafwyd sylwadau perthnasol.

Dyma rai sylwadau a dderbyniwyd gan bobl yn erbyn y cynnigion:

- Pam newid? Mynegi'r cwestiynau'n well.
- Pam yr ydych yn sydyn eisiau newid y ddeddfwriaeth pam mae cynnydd yn y cramenogion yn ein moroedd.

C.8 Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i greu trosedd cludo, sy'n ei gwneud yn drosedd bob ag unrhyw un o'r rhywogaethau uchod yn eich meddiant sy'n llai na'r maint lleiaf a nodir uchod, hyd yn oed pa bai wedi'i ddal y tu allan i Fôr Tiriogaethol Cymru (12 milltir forol)?

Dyma rai sylwadau a dderbyniwyd oddi wrth y rheini sydd o blaid y cynnigion:

- Rwyf innau'n cefnogi cyflwyno trosedd cludo allan hyd at 12 milltir morol, ond rhaid i'r trosedd cludo ymestyn i gynnwys y tir, i sicrhau nad yw prynwyr yn gallu prynu crancod/cimychiaid o dan isafswm maint Cymru ar y tir.
- Dylai'r cynnigion gwmpasu'r tir a'r môr. Felly, os bydd unrhyw brynwr yn prynu pysgod cregyn o faint rhy fach neu os bydd unrhyw bysgotwr yn cael ei ddal gyda physgod cregyn o faint rhy fach ar y tir neu ar y môr, dylai gael ei erlyn ac mae angen i'r dirwyon fod yn ddigon mawr i'w atal rhag troseddu eto.

Dyma rai sylwadau a dderbyniwyd gan bobl yn erbyn y cynnigion:

- Dydw i ddim yn credu bod gan y pysgodfeydd ddigon o adnoddau i blismona o fewn y terfyn 6 milltir morol, heb sôn am y terfyn 12 milltir morol, ar draul lleihau gwaith plismona'r glannau.
- Pam newid? Mynegi'r cwestiynau'n well.
- Pam yr ydych yn sydyn eisiau newid y ddeddfwriaeth pam mae cynnydd yn y cramenogion yn ein moroedd.

C.9 Ydych chi'n cytuno â'r gwaharddiad ar bysgota am gimychesau wyog a gwahardd eu glanio a'u gwerthu; a gwahardd hefyd eu cynnig neu eu dangos i'w gwerthu a bod â chimyches o'r fath yn eich meddiant. Byddai'n rhaid i chi felly daflu cimyches wyog yn ôl yn syth i'r môr.

Er bod cefnogaeth i'r cynnig hwn (23), roedd 19 ymatebydd yn gwrthwynebu ac ni chafwyd ymateb gan ddau.

Ond, roedd y sylwadau'n amrywio a theimlai ymatebwyr y byddai'n anodd gorfodi'r cynnig hwn.

Dyma rai sylwadau a dderbyniwyd oddi wrth y rheini sydd o blaid y cynnigion:

- Rwy'n cytuno'n llwyr â'r gwaharddiad ar bysgota am gimychesau wyog a gwahardd eu glanio a'u gwerthu; a gwahardd hefyd eu cynnig neu eu dangos i'w gwerthu a bod â chimyches o'r fath yn eich meddiant.
- Dylai pob cimyches wyog gael ei dychwelyd yn ddianaf yn syth i helpu i gael poblogaeth gynaliadwy. Dylai fod yn drosedd glanio cimyches wyog.
- Dewiswyd gwaharddiad gydol y flwyddyn ar gimychesau wyog oherwydd teimlid bod diogelu pob cimyches ym misoedd Mehefin a Gorffennaf yn ymarfer dibwynt. Beth yw pwynt diogelu pob cimyches am ychydig o gimychiaid sy'n aros â wyau llygadog pan oedd y rhan fwyaf ohonynt, yn y naw mis blaenorol, wedi'u cynaeafu beth bynnag.

Dyma rai sylwadau a dderbyniwyd gan bobl yn erbyn y cynnigion:

- Y rheswm pam imi ddweud na yw y byddai rhai pysgotwyr yn golchi wyau'r cimwch i ffwrdd a allai arwain at farwolaeth y cimwch neu niwed iddo. Rwy'n credu'n gryf mewn diogelu ein rhywogaethau.
- Yr unig sylw negyddol sydd gen i i'w wneud yw ynghylch gwahardd glanio cimychiaid wyog. Ni fydd modd gorfodi'r cynnig hwn a'r cyfan y bydd yn ei wneud fydd gwneud drwg i bysgotwyr onest.
- Mae cimyches wyog yn ymosodol iawn ac mae ganddi diriogaeth fawr. Bydd gwahardd cimychesau wyog yn achosi mwy o ymladd a bydd crafangau'n

cael eu colli neu waeth a bydd hefyd yn lleihau capasiti dal tir da ar gyfer cimychiaid.

- Unwaith eto, rwy'n hapus i fynd allan o'm ffordd i ddod â nhw i mewn a mynd â nhw allan eto a'u dychwelyd os bydd rhyw fath o gynllun ar gael yn hytrach na dim ond cael fy mygwth â deddfwriaeth.
- Braidd yn ddibwynt gan y bydd rhai pysgotwyr yn sgwrio'r cimychesau wyog gan y gall y rhain gyfateb i hyd at hanner i dri chwarter o ddalfa diwrnod.
- Rwyf wedi cytuno â'r holl gynigion heblaw'r un am y cimychesau wyog. Eisoes ar faint lleiaf o 87mm, mae nifer sylweddol o gimychesau wyog yn cael eu rhyddhau. Gyda'r cynnydd arfaethedig i 90mm bydd nifer ychwanegol eto o gimychiaid aeddfed (wyog) yn cael eu rhyddhau oherwydd eu bod yn rhy fach. Yn ymarferol, mae'n llawer mwy anodd ei blismona na maint lleiaf.
- Dydw i ddim yn cytuno y dylai cimychesau wyog gael eu rhoi yn ôl yn barhaus. Ond rwy'n meddwl y dylid rhoi cimychesau wyog yn ôl yn ystod misoedd penodol o'r flwyddyn.
- Nid wy'n cytuno oherwydd A) bydd y maint 90mm yn rhoi mwy o amser i'r holl stoc fridio B) Nid oes modd ei orfodi C) O'i gyfuno â'r cynnydd yn y maint byddai'r dalfeydd yn y Gogledd yn gostwng 75% a mwy, gan ddifetha bywoliaeth pobl. Mae'r stoc cimychiaid yn dda ac yn iach ar hyn o bryd. Nid yw o dan fgythiad. Marchnadoedd gwael yw'r broblem nid diffyg pysgod.
- Ni ddylai cimychiaid wyog dros ryw faint arbennig gael eu glanio, 1 kg neu hyd gyfartalog gyfatebol dyweder, os gellir plismona hyn.
- Cimychesau wyog – dydw i ddim yn cytuno â'r gwaharddiad ar lanio cimychesau wyog oherwydd dydw i ddim yn meddwl y gallwn orfodi hyn.
- Ar hyn o bryd, dydw i ddim yn cefnogi'r gwaharddiad ar lanio cimychesau wyog, gan nad oes digon o dystiolaeth wyddonol sylfaenol i brofi y byddai dychwelyd cimychesau wyog i diroedd Cymru yn fanteisiol i bysgotwyr Cymru yn uniongyrchol.
- Dydw i ddim yn erbyn glanio cimychesau wyog. Teimlaf y byddai eu dychwelyd i gyd yn cael effaith fawr ar enillion sydd eisoes yn gostwng.

Ar ôl derbyn yr ymatebion uchod, gofynnwyd i'r 44 ymatebydd hefyd ystyried dau gwestiwn atodol arall:

CA.1. Ydych chi'n cytuno â gwahardd pysgota am gimychiaid ac arnynt hollt V neu sydd wedi'u llurgunio a gwahardd hefyd eu glanio a'u gwerthu; a gwahardd hefyd eu cynnig neu eu dangos i'w gwerthu a bod â chimwch o'r fath yn eich meddiant? Byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid taflu cimychiaid â hollt V neu wedi'u llurgunio yn ôl yn syth i'r môr.

O'r rhai a ymatebodd (12), roedd 10 o blaid y cynnig hwn.

Dyma rai sylwadau a dderbyniwyd oddi wrth y rheini sydd o blaid y cynnig:

- Rwy'n cefnogi'r cynnig ar gyfer cimychiaid â hollt v, ond rhaid i hyn hefyd gynnwys prynwyr yng Nghymru.
- Gyda gwaith eisoes wedi'i wneud yng nghyswllt holltau V ar gyfer gwella stoc, byddai peidio â chael amddiffyniad holltau V yn wrthgynhyrchiol gan y byddai cimychesau meddal a wyog sydd ar hyn o bryd â hollt yn colli'u gwarchodaeth. Mae'r holl fesurau rydych yn eu cyflwyno yn dda ar gyfer gwella'r stoc. Ond, heb reoli'r ymdrech bysgota, dim ond cynyddu fyddai'r ymdrech a fyddai'n gwneud yr holl reoliadau newydd hyn yn ddi-fudd.

Dyma rai sylwadau a dderbyniwyd gan bobl yn erbyn y cynnig:

- Byddai torri holltau V ar fenywod yn drysu'r gymhareb gwrywod/benywod sy'n beth drwg, mae'n waith ychwanegol ac yn ddrud i'w orfodi. Mae'r stoc cimychiaid yn iach iawn ond ni fyddai maint glanio isaf o 90mm ar draws y wlad yn ddrwg o beth.
- Dydw i ddim yn hoff o'r broses gwneud holltau V, digon o le i wneud camgymeriadau, niwed damweiniol, ynghyd â chimychesau mawr ymosodol yn lladd cimychiaid eraill yn y cewyll.

CA.2. Ydych chi'n cytuno â'r gwaharddiad ar gadw rhannau Crancod Coch, Crancod Heglog, Crancod Llygatgoch a Chrancod Glas i bob rhan o arfordir Cymru, hyd at 12 milltir forol o'r lan?

O'r rhai a ymatebodd (12), roedd 10 o blaid y cynnig hwn.

Dyma rai sylwadau a dderbyniwyd oddi wrth y rheini sydd o blaid y cynnig:

- Rwy'n cefnogi'r cynnig ar gyfer cadw rhannau o gramenogion, ond rhaid i hyn hefyd gynnwys prynwyr yng Nghymru.
- Cytuno 100%
- Mae'r cynnig yn ymddangos yn ffordd synhwyrol o weithredu yng nghyswllt y materion hyn ac yn ddull rhagweithiol o gau bylchau sy'n bodoli. Mae hefyd yn darparu mecanwaith clir i gael gwared ag arferion anghynaliadwy a chryfhau gorfodi.

Dyma rai sylwadau a dderbyniwyd gan bobl yn erbyn y cynigion:

- Yr arfer cyfredol ymysg pysgotwyr rhwydi sefydlog yw tynnu un neu'r ddwy grafanc oddi ar grancod coch er mwyn ei gwneud yn haws eu tynnu o'r rhwyd. Mae gweddill y cranc wedyn yn cael ei ddychwelyd i'r môr. Er nad ydym yn gwybod beth yw cyfradd goroesi'r crancod hyn sy'n cael eu dychwelyd i'r môr, mae'n ymddangos bod rhai yn gwneud, gan fod rhai wedi cael eu dal a'u crafangau wedi dechrau tyfu. Os cyflwynir y gwaharddiad ar lanio crafangau sydd wedi cael eu tynnu, mae'n debyg y byddai'r pysgotwyr yn troi at falu'r cranc cyfan yn hytrach na thynnu'r crafangau. Felly mae'n debygol y bydd y stoc crancod yn lleihau. Gallai ymchwil pellach ar gyfraddau goroesi crancod heb grafangau roi mwy o wybodaeth inni ar y mater hwn.
- Beth yw ystyr rhannau, ydych chi'n golygu cewyll, ond dydw i ddim yn meddwl bod ots. Mae digon ohonynt o'r hyn y gallaf ei weld, a nifer cynaliadwy o'r cramenogion hyn. Os rhywbeth, mae'r niferoedd wedi bod yn cynyddu yn ystod y tair blynedd diwethaf, felly dydw i ddim yn meddwl bod yn rhaid atal pobl rhag cadw rhannau/cewyll unrhyw rai o'r cramenogion hyn.

C.10 A oes gennych chi unrhyw sylw i'w wneud am y cynigion a ddisgrifir yn Rhan II?

Yn Rhan II yr ymgynghoriad, gofynnwyd i randdeiliaid ddarparu sylwadau ar gynigion sy'n cael eu hystyried ar gyfer eu cynnwys yn Rhan 2 yr Adolygiad Cramenogion. Cafwyd ymatebion cymysg gan randdeiliaid i'r cynigion a gyflwynwyd yn Rhan II.

Tyllau Dianc mewn Cewyll Cimychiaid/Crancod

Ychydig iawn o gefnogaeth a gafwyd i'r defnydd o dyllau dianc mewn cewyll cimychiaid/crancod, gyda physgotwyr yn teimlo eu bod yn ddiangen.

Roedd y sylwadau a gafwyd yn amrywio ac yn cynnwys:

- Dwi'n meddwl fod cyflwyno hatsh dianc ar gyfer cramenogion llai yn syniad gwych ac roeddwn wedi meddwl cynnwys un y llynedd ond ddim yn siŵr sut na pha faint.
- Dwi'n meddwl eu bod yn warchodaeth synhwyrol. Dwi'n cytuno â hatshus dianc maint bach. Bydd gan bysgotwyr masnachol fwy o waith gydag elfennau pydradwy'r trapiau.
- Nododd hefyd "A ban on the landing of berried females, effort reduction and an increase in the MLS would produce the greatest increases in eggs per recruit. Of these measures, only an increase in MLS would result in a greater yield per recruit. Therefore, in addition to the current ban on landing berried females an increase in the minimum landing size would be the most effective means of ensuring recruitment to the fishery."
- Mae tyllau dianc yn bryder imi gan fy mod yn defnyddio'r un cewyll ar gyfer pysgota cimychiaid ac ar gyfer pysgota crancod llygatgoch yn y gaeaf. Felly byddai hyn yn difetha pysgodfa hanfodol i bob pwrpas.

- Diangen.
- Gan nad ydw i'n glanio crancod llygatgoch bellach dwi'n defnyddio tyllau dianc ar y rhan fwyaf o'm cewyll, y maint a ddefnyddir yn Ynysoedd y Sianel dw'n meddwl. O'r herwydd, ychydig iawn o gimychiaid a chrancod bach dwi'n eu dal, sy'n lleihau'r amser clirio'n sylweddol.
- Cost ychwanegol ac yn ddiangen.
- Gan mai pysgotwr hamdden ydw i, os bydd yn rhaid i gewyll gael tyllau dianc ydy hynny'n golygu y bydd yn rhaid defnyddio cewyll gwahanol ar gyfer pob math y byddwn yn dod ar eu traws o bosibl mewn cawell.
- Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymchwilio i werth gwyddonol defnyddio tyllau dianc i ryddhau cramenogion sy'n rhy fach. Rydym yn cefnogi gwaith Ysgol Gwyddorau Eigion Bangor yn casglu data gwyddonol fel sail i'r cynllun hwn.
- Er y byddem yn croesawu rhoi rhagor o ystyriaeth i dyllau dianc, dylid eu defnyddio ar y cyd â mesurau eraill, a dylid ceisio monitro'r effeithiau ar y niferoedd sy'n cael eu glanio os bydd y mesur hwn yn cael ei gyflwyno. Gyda golwg ar hyn, byddai'n ddoeth i Lywodraeth Cymru ystyried defnyddio'r EMFF (Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop) i ariannu mesurau o'r fath er mwyn dod i ddeall y dull hwn o weithredu'n iawn.
- Rwyf wedi gweld y tyllau dianc plastig du 80 x 45mm, er nad wyf wedi defnyddio un fy hun byddai'n ddiddorol cael gwybod am unrhyw ymchwil ar hyn. Byddwn yn poeni dwi'n meddwl y gallai crancod bach ei chael yn haws mynd i mewn i'r gawell a thrwy hynny fwyta'r abwyd yn gynt?

Pysgota Ysbrydion

Ychydig o sylwadau a gafwyd ac roeddynt yn cynnwys:

- Dim problem o'm mhrofiad i.
- Byddai gorfod cynnwys deunyddiau pydradwy effeithiol a chost isel yn y cewyll pysgota yn rhywbeth i'w groesawu i leihau pysgota ysbrydion yng Nghymru.

Maint Glanio Mwyaf ar gyfer Cimychiaid

Roedd y sylwadau a gafwyd yn amrywio ac yn cynnwys:

- Credaf fod y maint glanio mwyaf o 12-130mm ychydig yn fach ac fe allai effeithio ar bysgotwyr sy'n gweithio yn y môr mawr. Byddwn i'n awgrymu maint o 140mm+.

- Gallai cyflwyno maint glanio mwyaf ar gyfer cimychiaid fod yn fanteisiol gan y gallai gynyddu'r gallu i atgenhedlu drwy adael unigolion mwy epilgar a mwy o ran maint yn y bysgodfa, a fydd yn cyfrannu at boblogaeth iachach.
- Gwastraff amser, does dim modd pennu maint sy'n addas i Ogledd a De Cymru
- Roedd y dystiolaeth wyddonol ategol a gafwyd gyda'r ymgynghoriad yn dangos mai ychydig iawn o gimychiaid mawr iawn sydd yn y bysgodfa. Nid dyna fel y mae ac mae nifer y cimychiaid dethol a chimychiaid mawr sy'n cael eu glanio'n gyfartal fwy neu lai yn ôl pwysau. Byddai cyflwyno maint glanio mwyaf yn cael effaith drychinebus ar hyfywedd economaidd y bysgodfa. Byddai hefyd yn lleihau niferoedd y cimychiaid dethol sydd ar gael i'w dal gan y byddai cimychiaid mwy yn aros ar y ddaear yn rheoli'r bysgodfa.
- Cafodd y maint uchaf o 140mm ar gyfer cimychiaid ei wrthod.
- Deallwn fod maint glanio mwyaf yn cael ei ddefnyddio eisoes mewn sawl pysgodfa yn yr Alban, yn rhannol oherwydd problemau'n ymwneud â'r gallu i werthu cimychiaid dros faint arbennig. Ond byddai'n ddoeth gwneud yn siŵr fod y mesur hwn wedi arwain at welliant pendant ym mhysgodfeydd yr Alban, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â mesurau eraill cyn cyflwyno'r mesur hwn ym mhysgodfa cimychiaid Cymru. Dylid nodi hefyd y dylai unrhyw gyfyngiad o'r fath fod yn berthnasol i bysgota anfasnachol hefyd i sicrhau nad yw'n cael ei danseilio gan bysgota nad yw'n cael ei reoleiddio.

Deifio a Rhwydo am Gimychiaid Coch

Roedd y sylwadau a gafwyd yn amrywio ac yn cynnwys:

- Fyddwn i byth yn cefnogi gwaharddiad ar rwydo am gimychiaid coch.
- Roedd yr holl aelodau'n cytuno mai dim ond mewn cewyll y dylid dal cimychiaid coch ac y dylid gwahardd y broses o rwydo a deifio amdanynt. Cytunwyd hefyd y dylent gael amddiffyniad llawn am bum mlynedd i weld a ellid adfer y stociau neu roi cynnig ar raglen ailstocio pe gellid cael arian ar gyfer hynny, gyda'r rhaglen yn cael ei hasesu gan gorff annibynnol bob pum mlynedd.
- Cyn ystyried rheoli'r peirianweithiau arfaethedig ar gyfer pysgota am gimychiaid coch, byddai'n gwneud synnwyr dychwelyd y stoc i lefelau Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf (MSY). Dim ond pan fydd y stoc mewn cyflwr hunangynhaliol y dylid ystyried faint o'r stoc y gellir ei dynnu ac ym mha ffordd.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwerthfawrogi mai rhan gyntaf yn unig yw hwn o gynigion rheoli cramenogion yng Nghymru ac rydym yn cefnogi cynnig Llywodraeth Cymru i sefydlu maint glanio mwyaf mwy ar gyfer cimychiaid coch ledled Cymru, sef maint mwyaf o 110mm, er nad yw'n cael ei ategu gan dystiolaeth wyddonol glir.

Cewyll Anfasnachol

Roedd y sylwadau a gafwyd yn amrywio ac yn cynnwys:

- Hefyd mae angen ichi edrych ar y polisi pum cawell y person.
- Dylid atal pysgotwyr hamdden sy'n dal cimychiaid rhag gwerthu'r cimychiaid. Mae angen mwy o blismona drwy archwiliadau naill ai pan fydd cychod yn glanio neu pan maent ar y môr.
- Credaf y dylai'r hawl i bysgotwyr hamdden ddal nifer bychan o gramenogion at eu defnydd personol gael ei gadw.
- Mae nifer y pysgotwyr heb drwydded yn cynyddu ledled Sir Benfro, llawer ohonynt yn gwerthu'r hyn y maent yn ei ddal drwy'r farchnad ddu. Mae hyn yn effeithio ar bysgotwyr trwyddedig. Rwy'n cefnogi rhyw fath o gyfyngiad.
- Credaf y dylai'r hawl i bysgotwyr hamdden ddal nifer bychan o gramenogion at eu defnydd personol gael ei gadw.
- Dylid atal pysgotwyr cimychiaid hamdden rhag gwerthu cimychiaid.
- Yn ein barn ni, mae'n bwysig rheoli'r holl bysgodfeydd er mwyn cyflwyno'r dull sy'n seiliedig ar yr ecosystem ac er mwyn i adnoddau gael eu rhannu'n fwy cyfartal ac yn fwy cynaliadwy.
- Dylid hefyd ystyried marcio cewyll anfasnachol.

Cynllun Trwyddedu i Bysgotwyr Masnachol

Roedd y sylwadau a gafwyd yn amrywio ac yn cynnwys:

- Nid wyf yn cefnogi cynllun trwyddedu. Credaf mai'r cyfan sydd ei eisiau yw bod yn berchen ar gwch sydd wedi'i chofrestru a'i thrwyddedu.
- Rydym yn croesawu barn Llywodraeth Cymru y gallai fod angen cyfyngu ar weithgarwch yn y pysgodfeydd cramenogion i sicrhau pysgodfa gynaliadwy a diwydiant cynaliadwy.
- Byddai cyflwyno cynllun trwyddedu cyfyngol ar gyfer rhai pysgodfeydd yn rhywbeth i'w groesawu gyhyd â'i fod yn cyfrannu at gyflawni lefelau Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf (MSY).

Maint Lleiaf Crancod Glas (*Carcinus maenas*)

Roedd y sylwadau a gafwyd yn amrywio ac yn cynnwys:

- Fyddwn i ddim yn cefnogi mesur o'r fath.

- Byddai sefydlu maint glanio lleiaf ar gyfer crancod glas yn rhywbeth i'w groesawu a rhaid iddo fod yn seiliedig ar wyddoniaeth gadarn.

C.11 Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw sylwadau am y cwestiynau hyn, defnyddiwch y blwch hwn i'w nodi. Cadwch bob sylw ar wahân.

Roedd y sylwadau a gafwyd yn amrywio ac yn cynnwys:

- Maent i gyd yn realistig ac yn rhesymol. Nid yw'n iawn cael rheoliadau gwahanol ar draws y wlad ac mae maint lleiaf ar gyfer dalfeydd yn deg.
- Credaf fod y cynigion dan sylw yn syniad gwych ac yn realistig o ran gallu cynnal stoc iach o gimychiaid a chefnogi anghenion pysgotwyr hamdden a masnachol.
- Ar y cyfan credaf na all unrhyw gamau a gymerir i ddiogelu stociau ar gyfer y dyfodol fewn rheswm fod yn ddim ond rhywbeth da.
- Rydym yn cefnogi bwriad Llywodraeth Cymru i ystyried mesurau rheoli ychwanegol ar gyfer pysgodfeydd cramenogion Cymru drwy broses ymgynghori arall. Ond, cyn mabwysiadu'r mesurau ychwanegol hyn, rhaid i'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer gwneud hynny gael ei hystyried a'i chyflwyno'n glir.
- Rydym yn croesawu nifer o'r cynigion ac yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd y camau gofynnol i sicrhau y byddant yn cael eu cyflwyno. Ond rydym yn nodi y bydd nifer o'r cynigion yn anodd eu gorfodi heb gydweithrediad y diwydiant ac felly gobeithio bod digon o drafodaethau wedi cael eu cynnal i sicrhau y bydd y cynigion hyn yn cael eu rhoi ar waith lle bydd pawb yn cydweithredu.

Y Camau Nesaf

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried gan y Dirprwy Weinidog Amaeth a Physgodfeydd er mwyn i benderfyniad gael ei wneud am sut i symud ymlaen.

Rhestr yr Ymatebwyr *

David Nicholson
Richard Boyce
Andrew Wilson
Dr Chris Hawksley
Norman Scott
Denver Beer
Martin Esseen
Bob J Wright
Carl Davies
David Barker
John James Gorman
Steven James
Idwal Moor
Ryan Horton
Stephen DeWaine
Robert James Gorman
Martyn Bowen
Tristan Woods
Clive Campbell
Chris Jones
Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn
Paul Mansel
Richard Andrew Stothert
Sion Williams
Cyswllt Amgylchedd Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru
Dan Angel
Dene Wright
Alastair Bresford

*** Nid yw'r uchod yn cynnwys y rheini sydd am fod yn ddiennw neu'n gyfrinachol.**